

Rhyddhad Ardrethi a Ariennir gan Lywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 bydd y rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach yng Nghymru yn cael ei ymestyn.

www.cymru.gov.uk

Bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%, a bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar raddfa a fydd yn gostwng o 100% i sero.

Brasamcan o rai o'r gwahanol gyfraddau o ryddhad			
Gwerth Ardrethol (£)	% Rhyddhad	Gwerth Ardrethol (£)	% Rhyddhad
0 - 6,000	100	9,000	50
7,000	83.4	10,000	33.3
8,000	66.6	11,000	16.6

Bydd busnesau sy'n derbyn rhyddhad ar gyfradd uwch ar hyn o bryd yn cael y gyfradd ryddhad sydd fwyaf manteisiol iddynt.

Os oes gan dalwr ardrethi unrhyw ymholiadau am ryddhad ardrethi neu daliadau yn y dyfodol, dylid cyfeirio'r rhain at yr awdurdod lleol.

Nodiadau:

1. Rhaid i bob safle busnes fod wedi'i feddiannu'n llwyr er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi.
2. Ymhlith y safleoedd nad ydynt yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi y mae'r rhai sydd wedi'u meddiannu gan gyngor, awdurdod heddlu neu'r Goron; y rhai sydd wedi'u meddiannu gan elusennau, clybiau cofrestredig, neu gyrff dielw y mae eu prif amcanion yn ddyngarol, yn grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain; cabanau glan môr; safleoedd sy'n cael eu defnyddio'n unig ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gwaith trin carthion neu gyfarpar cyfathrebu electronig.
3. Bydd yr isod yn parhau i gael rhyddhad fel a ganlyn:
Bydd safleoedd sydd â gwerth ardrethol rhwng £10,501 a £11,000 yn derbyn rhyddhad manwerthu o 25% – bydd pob safle arall yn cael rhyddhad ar y gyfradd sydd fwyaf manteisiol iddynt. Bydd Swyddfeydd Post yn cael rhyddhad ardrethi o 100% neu 50%. Bydd Safleoedd Gofal Plant cofrestredig a chanddynt werth ardrethol o £9,001 – £12,000 yn cael rhyddhad o 50%.